**Ymchwiliad i'r Rhaglen Cefnogi Pobl**
**Ymateb i'r Ymgynghoriad gan Cymorth i Ferched Cymru**
**Dyddiad cau: 22.12.17**

| | |
|---|---|
| **Enw:** | *Hilary Watson, Swyddog Polisi ac Ymchwil* |
| **Sefydliad:** | *Cymorth i Ferched Cymru* |
| **Cyfeiriad ebost:** | *HilaryWatson@welshwomensaid.org.uk* |
| **Rhif ffôn:** | *02920 541 551* |
| **Cyfeiriad:** | *Tŷ Pendragon, Plas Caxton, Pentwyn, Caerdydd CF23 8XE* |
| **Dyma farn:** | *Cymorth i Ferched Cymru (Trydydd Sector) – yr elusen genedlaethol yng Nghymru sy'n gweithio i ddileu cam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod.* |

**Cymorth i Ferched Cymru**

Cymorth i Ferched Cymru yw'r corff aelodaeth ymbarél yng Nghymru sy'n cefnogi ac yn darparu cynrychiolaeth i 26 o wasanaethau arbenigol annibynnol trydydd sector ym maes trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) (ein haelodaeth o wasanaethau arbenigol).[1] Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu cymorth sy'n achub ac yn newid bywydau a gwaith ataliol mewn ymateb i drais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol, fel rhan o rwydwaith o ddarpariaeth yn y DU.

Fel corff ymbarél, ein prif ddiben yw atal cam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod a sicrhau gwasanaethau ansawdd uchel i oroeswyr dan arweiniad anghenion, yn ymateb i rywedd ac sy'n gyfannol. Rydym ni'n cydweithio'n genedlaethol i integreiddio a gwella ymatebion ac ymarfer cymunedol yng Nghymru; rydym ni'n darparu cyngor, ymgynghoriaeth, cefnogaeth a hyfforddiant i gyflenwi gwelliannau polisi a gwasanaeth ar draws gwasanaethau'r llywodraeth, y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector mewn cymunedau, er budd goroeswyr. Mae hyn yn cynnwys cynghori a chynorthwyo comisiynwyr ac arweinwyr strategol wrth iddynt ddatblygu asesiadau angen a chynlluniau strategol ar gyfer VAWDASV, gan hyrwyddo tystiolaeth am fodelau gwasanaeth newydd arloesol, a chefnogi ymchwil i atal cam-drin.

Mae rhai o'r gwasanaethau ymbarél niferus rydym ni'n eu cyflenwi i aelodau'n cynnwys hwyluso ymwneud aelod-wasanaethau â pholisi perthnasol, datblygiadau deddfwriaethol a strategol ac annog cyd-gynhyrchu o ran datblygu gwasanaeth; darparu cyngor a gwybodaeth ar ddatblygiad a chyflenwi ymarfer addawol yn y sector; darparu cefnogaeth gyda materion polisi, ac adroddiadau dadansoddi

[1] Ein haelodaeth o 27 o wasanaethau arbenigol trydydd sector VAWDASV yng Nghymru, y mae gennym bartneriaeth genedlaethol gyda nhw i sicrhau bod ein gwaith yn cael ei gydlynu a'i integreiddio: *Aberconwy DAS, Atal y Fro, Cymorth i Ferched Bangor a'r Ardal, BAWSO, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Cymdeithas Tai Clwyd Alyn, Stepping Stones, New Pathways, Merthyr Tudful Diogelach, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Caerfyrddin, Calan DVS, Cymorth i Ferched Caerdydd, Cymorth i Ferched Cyfannol, Uned Diogelwch Cam-drin Domestig (DASU), Cymorth i Ferched Glyndŵr, Gorwel (Grwp Cynefin), Hafan Cymru, Llamau, Canolfan Argyfwng Teuluol Maldwyn, Cymorth i Ferched Casnewydd, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gogledd Sir Ddinbych, Cymorth i Ferched Port Talbot ac Afan, Cymorth i Ferched RCT, Cymru Ddiogelach gan gynnwys Prosiect Dyn, Cymorth i Ferched Abertawe, Threshold (Cymorth i Ferched Llanelli yn flaenorol), Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru, Canolfan Trais ac Ymosodiadau Rhyw Gogledd Cymru.*

data rhanbarthol a chenedlaethol i gefnogi asesiadau lleol o anghenion, datblygiadau strategaeth a chomisiynu datblygiadau.

Rydym ni hefyd yn cyflenwi gwasanaethau uniongyrchol gan gynnwys Llinell Gymorth Byw Heb Ofn a gyllidir gan Lywodraeth Cymru; Gwasanaeth Hyfforddi Cenedlaethol; rhaglen waith genedlaethol Mae Plant yn Cyfri sydd, er enghraifft yn cefnogi gwasanaethau lleol i helpu plant a phobl ifanc sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin a chyflenwi rhaglenni Diogelwch, Ymddiriedaeth a Pharch (STAR) ar draws Cymru, a gwasanaethau lloches ac eiriolaeth ym Mae Colwyn a Wrecsam. Rydym ni'n peilota prosiect ymgysylltu â goroeswyr i helpu i wella ymatebion asiantaethau i gam-drin (Gwasanaethau Grymuso ac Addysgu Goroeswyr (SEEdS), sy'n grymuso goroeswyr trais a cham-drin i ddylanwadu a llywio gwasanaethau a fframweithiau comisiynu, a helpu i newid agweddau'r cyhoedd a'r gymuned.
Rydym ni hefyd yn cyflenwi'r Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol, fframwaith achredu cenedlaethol i wasanaethau cam-drin domestig yng Nghymru (gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru) fel rhan o gyfres o systemau a fframweithiau achredu integredig yn y DU. (Ceir rhagor o wybodaeth am y safonau yma: http://www.welshwomensaid.org.uk/what-we-do/our-members/standards/)

**Ymateb Cymorth i Ferched Cymru**

Fel y corff ymbarél cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru mae ein hymateb wedi'i seilio ar ymgynghori â'n haelodaeth o wasanaethau arbenigol ac yn adlewyrchu eu profiadau nhw ar draws yr holl ranbarthau. Yn ogystal, rydym ni'n ymgynghori â goroeswyr drwy brosiect SEEdS (Gwasanaethau Grymuso ac Addysgu Goroeswyr) Cymorth i Ferched Cymru, y mae eu gwybodaeth ymarferol am ddefnyddio llety dros dro'n llywio'r ymateb hwn.

## Cwestiwn 1: Effaith datblygiadau polisi ehangach ar y rhaglen

Mae trais domestig yn costio £303.5m bob blwyddyn i Gymru: £202.6m mewn costau gwasanaeth a £100.9m i allbwn economaidd a gollir. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys unrhyw elfen o gost ddynol ac emosiynol, y mae'r ymchwil yn amcangyfrif ei fod yn costio £522.9m arall i Gymru.[2] Amcangyfrifir bod pob lladdiad yn sgil cam-drin domestig yn costio o ddeutu £1.1 miliwn i'r gwasanaethau cyhoeddus.[34]

Canfu gwerthusiad annibynnol o Cefnogi Pobl yn 2009 fod gwasanaethau cymorth lloches a symudol i oroeswyr cam-drin domestig yn cynnig arbediad i'r wladwriaeth o £19,635 ar gyfer pob goroeswr sy'n derbyn gwasanaeth cymorth cam-drin domestig penodol drwy loches neu gymorth symudol. Os

[2] Walby, S., 'The Cost of Domestic Violence: Update 2009', Lancaster University, 2009, http://www.lancaster.ac.uk/fass/doc_library/sociology/Cost_of_domestic_violence_update.doc, (cyrchwyd 6 Dec 2017).
[3] Brand, S. and Price, R. 'The Economic and Social Costs of Crime', *Home Office Research Study 217*, 2000.
Brennan, D. 'The Femicide Census: 2016 findings – Annual Report on Cases of Femicide in 2016', *Women's Aid England*, 2017.
[4] Dengys data newydd o'r 'Femicide Census 2016' fod 13 o fenywod wedi'u llofruddio gan ddynion ygn Nghymru yn 2016, gyda De Cymru'n adrodd y nifer uchaf yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon (8 menyw wedi'u lladd) a'r pedwerydd uchaf y pen (0.62 fesul 100,000). Gyda phob lladdiad cam-drin domestig yn costio amcangyfrif o ddeutu £1.1m i'r gwasanaethau cyhoeddus, mae hyn yn amcangyfrif o £14.3m yng Nghymru yn 2016.
Brennan, D. 'The Femicide Census: 2016 findings – Annual Report on Cases of Femicide in 2016', *Women's Aid England*, 2017.

oes modd sicrhau arbedion o'r math hwn ar gyfran fach o gyfanswm y gwariant, gallent fod yn fwy fyth o'u cymhwyso i gyllidebau prif ffrwd plismona, plant, iechyd a chyfiawnder.[5]

Gwnaeth astudiaeth ddiweddarach o ddarpariaeth lloches amcangyfrif ceidwadol o'r gwerth a gynhyrchir gan un flwyddyn o gyflenwi gwasanaethau lloches sy'n cynnig cyfuniad o wasanaethau lloches, allgymorth ac eiriolaeth: roedd y gwerth cymdeithasol tua £33m i'r wladwriaeth. Canfu'r enillion cymdeithasol cyffredinol ar fuddsoddiad fod model gwasanaeth lloches yn effeithlon yn economaidd wrth greu canlyniadau cadarnhaol, ac am bob £1 a gaiff ei wario, crëwyd £3.54 o werth cymdeithasol ar gyfartaledd drwy gyfuniad o ganlyniadau diogelwch, iechyd a chyfiawnder troseddol.[6]

Mae gan Cefnogi Pobl y potensial i barhau i greu gwahaniaeth gwirioneddol i bobl fregus ar draws Cymru, gan gynnwys goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV). Gallai unrhyw ostyngiad i lefelau cyllid a dderbynnir gan wasanaethau arbenigol VAWDASV gael effaith aruthrol a cheir pryder enfawr am effaith bosibl cynllun cyllideb arfaethedig Llywodraeth Cymru i ddileu gwarchodaeth grant Gwasanaethau VAWDASV a'r grant Rhaglen Cefnogi Pobl os cânt eu hamsugno i'r Grant Ymyrraeth Gynnar, Atal a Chymorth arfaethedig.

Mae aelodau Cymorth i Ferched Cymru yn pryderu y byddai tynnu gwarchodaeth Cefnogi Pobl heb drefniadau trawsnewidiol sy'n uchafu gwarchodaeth y gwasanaethau hynny sy'n fwyaf tebygol o gael eu colli (fel gwasanaethau arbenigol VAWDASV), yn debygol iawn o arwain at ddatgymalu ein rhwydwaith genedlaethol o wasanaethau arbenigol trydydd sector sy'n darparu cymorth sy'n achub bywydau ac sy'n newid bywydau i ddioddefwyr cam-drin domestig, trais rhywiol, trais ar sail 'anrhydedd', FGM, cam-fanteisio rhywiol ac aflonyddu.

Gwaethygir effaith cynigion Llywodraeth Cymru gan gynlluniau Llywodraeth y DU i newid y ffordd y caiff tai â chymorth eu cyllido, ac i bob pwrpas bydd yn trosglwyddo'r hyn sy'n cyfateb i gostau rhenti llochesi i lywodraethau neu ardaloedd lleol ei ddosbarthu. Does dim gwarchodaeth benodol yn y cyllid hwn ar gyfer llochesi. Eto i gyd i gyd-fynd â hyn caiff Bil Cam-drin Domestig ei gyflwyno yn y Flwyddyn Newydd fydd yn cynyddu'r galw am gymorth ac yn gosod pwysau pellach ar wasanaethau arbenigol.

**Mae Cymorth i Ferched Cymru'n argymell** y dylid tynnu Cefnogi Pobl o'r prosiectau peilot Llwybrau Hyblygrwydd Llawn, gan ailosod y warchodaeth a diogelu cyllid Cefnogi Pobl.

### 1.1 Eglurder cyffredinol amcanion y Rhaglen:

Mae Cymorth i Ferched Cymru'n croesawu ychwanegu digartrefedd ac atal tlodi at amcanion Cefnogi Pobl, yr oedd yr archwiliad diweddar[7] wedi nodi eu bod yn absennol. Er bod 7% o holl gyllid Cefnogi Pobl yn cael ei ddyrannu i fenywod sy'n profi cam-drin domestig[8], mae'n syndod nad oes cyfeiriad penodol at gam-drin domestig yn amcanion Cefnogi Pobl. Mae goroeswyr cam-drin domestig yn dibynnu ar y cyllid hwn i gynnig darpariaeth sy'n achub bywydau ac yn newid bywydau drwy wasanaethau arbenigol VAWDASV. Heb gyfeiriad penodol at gam-drin domestig/VAWDASV yn

---

[5] Y Comisiwn Archwilio, 'Supporting People Review: Report for the Communities and Local Government Department', Y Comisiwn Archwilio, 2009.
[6] New Economics Foundation (2013) 'Social valuation of Refuge services for survivors of domestic violence', NEF Consulting
[7] Archwilydd Cenedlaethol Cymru, 'Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru', *Swyddfa Archwilio Cymru,* 2016.
[8] Ibid, p.7.

nodau'r Grant Cefnogi Pobl, ein pryder felly yw ei bod yn bosibl y gellid dyrannu'r cyllid i ffwrdd oddi wrth oroeswyr VAWDASV a'r gwasanaethau arbenigol sy'n eu cynorthwyo.

Roedd yr amcanion ar dai a chadw pobl mewn tai'n cynnig rhywfaint o gysur i'n haelodau; mynegwyd eu bod yn teimlo bod yr amcanion hyn o fewn y Rhaglen Cefnogi Pobl yn glir. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau sy'n effeithio ar allu pobl i gadw tenantiaethau oherwydd yr amgylchiadau y maent yn eu profi (a allai newid eu sefyllfa llety), fel cam-drin domestig, mae'r amcanion yn llai clir.

Ymhellach, ceir pryder ymhlith ein haelodau hefyd am y ffordd nad yw rhai pobl sydd mewn angen ond nad ydynt yn cyd-fynd â'r meini prawf bob amser yn gymwys am y cymorth sydd ei angen arnynt mor druenus. Dywedodd un gwasanaeth:

> *"mae angen i amcanion y rhaglen fod yn gliriach o ran cynyddu annibyniaeth i bobl fregus, darparu cysgod a hawliau dynol sylfaenol".*

**Mae Cymorth i Ferched Cymru'n argymell bod amcanion Rhaglen Cefnogi Pobl:**

- Yn cydnabod VAWDASV yn benodol er mwyn adlewyrchu rôl hanfodol y rhaglen sy'n darparu cymorth i oroeswyr VAWDASV.
- Yn ddigon eang i adlewyrchu amrywiaeth amgylchiadau pobl fregus er mwyn gallu darparu cymorth sy'n seiliedig ar anghenion ac yn canolbwyntio ar y person.

**1.2 Goblygiadau adolygiad Llety â Chymorth Llywodraeth y DU, ac ymateb iddo sy'n datblygu:**

Mae aelodau Cymorth i Ferched Cymru wedi pwysleisio bod y newid mewn cyllid o'r model budd-dal tai presennol yn berygl gwirioneddol i lochesi yng Nghymru, gan fod budd-dal tai'n gyfran fawr o incwm llochesi. Gallai'r holl ddarpariaeth llochesi ar draws Cymru fod mewn perygl, ond mae'r broblem yn arbennig o ddifrifol i sefydliadau llai o faint.

Ymatebodd Cymorth i Ferched Cymru i ymgynghoriad Llywodraeth y DU [9] yn y gwanwyn a buom yn rhain o weithgor llety tymor byr a gyflwynodd gynigion i Lywodraeth y DU ar drefniadau cyllido. Rydym ni hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu model datganoledig ar gyfer tai â chymorth. Rydym ni hefyd wrthi'n ymgynghori â'n haelodau ac yn ymgysylltu â goroeswyr i ymateb i Bapur Gwyn yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol a'r Adran Gwaith a Phensiynau[10] ar Gyllido Tai â Chymorth.

Mae Cymorth i Ferched Cymru wedi croesawu'r newidiadau a gyflwynwyd i estyn y cyfnod i Lywodraeth Cymru ddatblygu model Cymru ar gyfer y ffrwd cyllido hon hyd at fis Ebrill 2020, a'r gydnabyddiaeth bod angen model gwahanol ar gyfer llety tymor byr. Fodd bynnag ceir pryderon difrifol o hyd, yn enwedig mewn perthynas â'r lefel arfaethedig yn 2020-21 a ddatganolir i Lywodraeth Cymru, sy'n debygol o fod yn cyfateb i'r hyn a fyddai ar gael fel arall drwy'r system les. O ganlyniad, caiff y lefelau cyllido eu gosod ar ragamcanion cyfredol am lefel yr angen yn y dyfodol, felly mae'n bosibl na fyddant yn hyblyg i'r gwir alw. Mae Llywodraeth y DU wedi dweud y bydd model cyllido

[9] Ceir copi o'n hymateb yma: http://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2016/03/WWA-Response-Funding-for-Supported-Housing.pdf
[10] https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/656027/Funding_supported_housing_-_policy_statement_and_consultation.pdf

newydd yn sicrhau bod tai â chymorth yn parhau i gael eu cyllido ar yr un lefel ag yn 2019/20, ond nid yw hyn yn caniatáu ar gyfer codiadau rhent gan landlordiaid a drosglwyddir i'r darparwyr gwasanaeth, nac am gynnydd chwyddiant mewn costau gwasanaeth, er enghraifft costau ynni. Mae'n debygol y bydd unrhyw gynnydd mewn costau neu leihad yn y pot yn arwain at leihad mewn elfennau cymorth ar adeg pan ydym ni'n gweld cynnydd yn anghenion cymorth menywod a phlant sy'n cyrchu lloches.

Ceir risg hefyd wrth i Lywodraeth Cymru ddatganoli holl gyllid Grant Cefnogi Pobl a VAWDASV i awdurdodau lleol ac felly golli'r warchodaeth ar y ddau grant, y bydd dyraniad y cyllid ar gyfer tai â chymorth o'r pot budd-dal tai blaenorol yng Nghymru hefyd yn mynd i bot lleol heb warchodaeth. Os felly, byddai llochesi yng Nghymru mewn perygl o golli eu holl gyllid, ac nid yr elfen cymorth yn unig. Yn ogystal, caiff llochesi eu rhedeg fel rhan o rwydwaith genedlaethol ar draws y DU o wasanaethau ac mae dadfuddsoddi parhaus yn y gwasanaethau VAWDASV arbenigol ar y naill ochr a'r llall i'r ffin yn peryglu goroeswyr a'u plant, pa bynnag ranbarth maent yn byw ynddo.

Dyma grynodeb o ymateb un aelod-wasanaeth arbenigol i Adolygiad Llety â Chymorth Llywodraeth y DU:

> *"Credwn fod rhaid i'r trefniadau dosbarthu ar gyfer y cyllid llety â chymorth datganoledig arfaethedig gysylltu'n glir â chomisiynu Cefnogi Pobl. Felly, mae'n hanfodol fod cyllid Cefnogi Pobl yn parhau ar wahân ac na chaiff ei uno â grantiau nad ydynt yn ymwneud â thai. Rhaid deall y tri diffiniad o lety â chymorth yn glir; ceir trefniadau yng Nghymru i sicrhau bod rhenti cysgodol yn cael eu rheoleiddio; bod y drefn tai â chymorth yng Nghymru yn cael ei mapio'n gywir o ran cyflenwad i gynnwys twf a chynlluniau yn yr arfaeth; bod model ariannol/gweinyddu cyllid tymor byr yn seiliedig ar drefniadau comisiynu a wneir i gyd-fynd â chyllid refeniw Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl."*

Byddai angen gweithio trawsffiniol ar y fframwaith hwn. Nid yw meini prawf cyswllt lleol/rhanbarthol yn briodol ar gyfer gwasanaethau llety VAWDASV fel y gallent fod ar gyfer gwasanaethau Cefnogi Pobl eraill. Mae'r rhwydwaith cenedlaethol o ddarpariaeth lloches a symud ymlaen yng Nghymru yn adnodd hanfodol i lawer o oroeswyr sydd angen teithio y tu hwnt i'w hardal leol i ddianc rhag eu partner sy'n cam-drin i sicrhau eu diogelwch eu hunain a'u plant. Mae angen i unrhyw fodel cyllido gydnabod yr effaith bosibl ar y rhwydwaith o ddarpariaeth drwy Gymru. Er ei bod yn bosibl i'r model gael trefniadau rhanbarthol a lleol, rhaid gwarantu ei fod yn cynorthwyo gwasanaethau i weithio ar y cyd o fewn rhwydwaith cenedlaethol yng Nghymru ac ar draws y DU.

**Mae Cymorth i Ferched Cymru'n argymell ei bod yn hanfodol bod y model newydd sy'n cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru:**

- Yn cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithio ar y cyd i adeiladu darpariaeth gwasanaethau arbenigol VAWDASV drwy ddarparu cyllid cynaliadwy i wasanaethau arbenigol VAWDASV, fel y nodir yn Strategaeth Genedlaethol VAWDASV 2016-21. Rhaid i systemau refeniw a chyfalaf gydweithio i ddarparu datrysiad cyllid tymor hir a chynaliadwy i wasanaethau arbenigol a'u defnyddwyr gwasanaeth.
- Yn gorfod glynu at becyn cymorth VAWDASV i Gymru[11] a'r arweiniad comisiynu statudol arfaethedig atodol ar gyfer gwasanaethau arbenigol VAWDASV, a gynhyrchir fel rhan o

[11] https://www.lloydsbankfoundation.org.uk/VAWDASV%20Toolkit_Wales_web.pdf

ymrwymiadau Llywodraeth Cymru yn Neddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

- Yn ystyried effaith Credyd Cynhwysol ar fenywod a phlant sy'n cyrchu llety symud ymlaen, ac yn sicrhau bod cyllid cynaliadwy i lochesi'n cynnwys sefydlu cymorth ailsefydlu, sy'n helpu goroeswyr i symud ymlaen i ailadeiladu eu bywydau a'u sefydlu eu hunain mewn cymunedau lleol.
- Yn sicrhau ei fod yn cefnogi'r isafswm o ddarpariaeth gwasanaeth ar lefel genedlaethol i sicrhau bod Cymru'n cadw at ofynion Confensiwn Istanbul[12], ac ar gyfer gwasanaethau cam-drin domestig eu bod yn cadw at Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol Cymru (a gadarnhawyd gan y Cynghorydd Cenedlaethol ac a gyflenwir gan Cymorth i Ferched Cymru, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru).
- Yn gwarantu ei fod yn cynorthwyo gwasanaethau i weithredu ar y cyd i gyflenwi rhwydwaith cenedlaethol o lochesi i oroeswyr fel rhan o rwydwaith o ddarpariaeth yng Nghymru a'r DU.
- Yn cefnogi darpariaeth lloches fel y'i diffinnir gan *Routes to Support* (UK Refuges Online yn flaenorol), "mae lloches yn cynnig llety a chymorth yn gysylltiedig â'r llety hwnnw. Ni fydd y cyfeiriad ar gael i'r cyhoedd. Bydd yn cynnwys nifer penodol o lefydd. Bydd preswylwyr yn derbyn rhaglen o gymorth therapiwtig ac ymarferol a gynllunnir gan staff ac yn cael cymorth cymheiriaid gan breswylwyr eraill. Bydd hyn yn cynnwys: mynediad at wybodaeth ac eiriolaeth; cymorth emosiynol; mynediad at weithwyr cymorth arbenigol (e.e. camddefnyddio cyffuriau/alcohol, iechyd meddwl, cam-drin rhywiol); mynediad at waith adferol; mynediad at gymorth i blant (lle bo angen); cymorth ymarferol; gwaith allweddol a chynllunio cymorth (gweithio ar anghenion cymorth gan gynnwys e.e. rhianta, cyllid a llesiant); a chwnsela." (Routes to Support, 2017)

**1.3 Sut y gallai Llywodraeth Cymru wella cyfathrebu ynghylch blaenoriaethau'r Rhaglen ac effaith datblygiadau ehangach:**

Mae aelodau Cymorth i Ferched Cymru wedi galw am ddiweddariadau cenedlaethol perthnasol, gyda gwybodaeth ranbarthol i'w dosbarthu lle bo'n briodol. Fel y corff ymbarél cenedlaethol ar gyfer VAWDASV yng Nghymru, gall Cymorth i Ferched Cymru gynorthwyo i ddosbarthu gwybodaeth i'r cyrff priodol o fewn ein rhwydwaith. Gellid defnyddio'r dull hwn hefyd i gyrff aelodaeth eraill sefydliadau a gyllidir gan Cefnogi Pobl fel Cymorth Cymru a Thai Cymunedol Cymru. Yn ogystal, gallai timau Cefnogi Pobl yn yr awdurdodau lleol ddarparu diweddariadau. Drwy fabwysiadu nifer o ddulliau, mae'n debygol y bydd gwybodaeth yn cyrraedd pobl berthnasol ac na chaiff ei cholli pan fydd unigolion cyswllt penodol yn newid swyddi.

Mynegodd un gwasanaeth bryderon bod eu sefydliad ond yn derbyn diweddariadau pan fyddai gofyn iddyn nhw wneud mwy, fel cyfathrebu am gynnydd yn y lefelau o fonitro mandadol. Roedd awydd i dderbyn diweddariad gan Lywodraeth Cymru i "ni fel darparwyr" a mwy o sgwrs gyda thimau Cefnogi Pobl oedd yn cefnogi staff gwasanaeth wrth roi'r rhaglen ar waith.

<u>**Mae Cymorth i Ferched Cymru'n argymell**</u>

- Diweddariadau cyson, perthnasol ac amserol i ddarparwyr gwasanaeth gan dimau Llywodraeth Cymru a Cefnogi Pobl gyda chymorth cyrff ymbarél fel Cymorth i Ferched Cymru.

[12] See https://rm.coe.int/168046031c and https://icchange.co.uk/about/resources/

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE
Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |
Email: info@welshwomensaid.org.uk | Web: www.welshwomensaid.org.uk
Registered Charity Number: 1140962

**1.4 Beth yw'r ffordd orau i gydweddu gwaith Pwyllgorau Cydweithredol Lleol gyda threfniadau llywodraethu cydweithredol eraill:**

Mae Cymorth i Ferched Cymru'n argymell cydweddu gwaith Pwyllgorau Cydweithredol Lleol gyda byrddau strategol VAWDASV, fel rhan o agwedd gydlynol at drechu VAWDASV ar draws Cymru. Ymhellach i hyn, un argymhelliad gan ein haelodau oedd y dylai'r Pwyllgorau Cydweithredol Lleol fod yn defnyddio ffora sy'n bodoli gan adeiladu ar gydweithio sy'n bodoli yn hytrach na sefydlu byrddau newydd. Pwysleisiodd ein haelodau bod angen:

> *"deall sut mae Cefnogi Pobl yn cyfuno gydag agendâu eraill ac yn cael effaith gadarnhaol ar wasanaethau eraill."*

Cododd un gwasanaeth bryderon nad oeddent yn gallu ymgysylltu'n effeithiol gyda fforymau darparwyr Cefnogi Pobl. Mae'n hanfodol fod gan wasanaethau VAWDASV gynrychiolaeth ar y fforymau hyn. Mae angen sicrhau bod yr holl wasanaethau a gyllidir gan y Rhaglen Cefnogi Pobl yn ymgysylltu â fforymau darparwyr gwasanaeth ac yn gallu cyrchu gwybodaeth gan y Pwyllgorau Cydweithredol Lleol i ganiatáu tryloywder yng nghynllunio a phenderfyniadau'r Pwyllgorau.

**<u>Mae Cymorth i Ferched Cymru'n argymell y dylai Rhaglen Cefnogi Pobl:</u>**

- Sicrhau cysylltiadau rhwng Pwyllgorau Cydweithredol Lleol a byrddau strategol VAWDASV gan gynnwys cynrychiolaeth o'r naill a'r llall ar y ddwy bartneriaeth.
- Sicrhau bod gwasanaethau arbenigol VAWDASV yn cael eu cefnogi i ymgysylltu'n effeithiol gyda fforymau darparwyr ar draws yr holl ranbarthau.

**1.5 Y gwersi i'w dysgu o effeithiolrwydd cymysg ac effaith gweithio rhanbarthol dros y pum mlynedd ddiwethaf:**

Mae aelodau o Cymorth i Ferched Cymru wedi bod yn galw am ymarfer addawol sydd yn:

> *"cynnig cyfleoedd ar gyfer cynyddu'r ffocws ar waith partneriaeth gyda grwpiau strategol allweddol eraill fel ffactor allweddol er mwyn cael eglurder ar sut mae rhaglenni allweddol yn effeithio ar wasanaethau a sut y gellir integreiddio agendâu."*

Mae ein haelodau wedi adrodd bod diffyg cysondeb ar draws rhanbarthau yn y meini prawf a'r berthynas gyda'r tîm Cefnogi Pobl. Er enghraifft, mae rhai gwasanaethau arbenigol VAWDASV yn adrodd er eu bod yn cael eu cyllido i ddarparu lloches a/neu gymorth symudol i oroeswyr sy'n oedolion, ychydig o gyllid os o gwbl maen nhw'n ei dderbyn ar gyfer cefnogi plant goroeswyr sy'n oedolion sydd hefyd yn defnyddio'r gwasanaethau hyn eu hunain. Fodd bynnag nid yw hyn yn gyffredin ar draws rhanbarthau Pwyllgorau Cydweithredol Lleol, gyda gwasanaethau arbenigol eraill yn adrodd *bod* y cyllid Cefnogi Pobl yn ddigonol ar gyfer anghenion goroeswyr sy'n oedolion a'u plant mewn awdurdodau lleol gwahanol.

Mae aelodau hefyd wedi crybwyll dulliau gwahanol o gomisiynu, sy'n dangos amrywiol lefelau o ddealltwriaeth o VAWDASV a'r ddarpariaeth gwasanaethau arbenigol. Ceir consensws eang ynghylch yr angen i gynyddu dealltwriaeth mewn timau Cefnogi Pobl am bwysigrwydd a natur benodol gwasanaethau arbenigol VAWDASV, natur a chymhlethdod y ddarpariaeth a'r arbenigedd sydd gan weithwyr proffesiynol yn y gwasanaethau arbenigol VAWDASV. Ceir pryderon am y duedd at ffafrio

contractau gyda gwasanaethau generig nad ydynt yn gallu cyflenwi cymorth arbenigol i oroeswyr VAWDASV, ond eto y disgwylir iddynt ddarparu gwasanaethau i oroeswyr cam-drin. Mae dealltwriaeth o'r angen am wasanaethau arbenigol VAWDASV yn amrywio ar draws rhanbarthau ac yn arwain at loteri cod post o ddarpariaeth ar draws y rhwydwaith cenedlaethol. Mynegodd un gwasanaeth arbenigol VAWDASV bryderon:

> *"Rydym ni'n teimlo bod Cefnogi Pobl yn ein gwthio fel corff cam-drin domestig i fod yn generig. Nid ydym wedi'n hargyhoeddi bod y Comisiynwyr Cefnogi Pobl yn gallu ymdrin â cham-drin domestig o fewn Cefnogi Pobl sy'n drueni a bydd hyn yn achosi problemau wrth ddelio â cham-drin domestig a sicrhau llety i ddioddefwyr."*

**<u>Mae Cymorth i Ferched Cymru'n argymell fel a ganlyn:</u>**

- Dylai meini prawf y Rhaglen Cefnogi Pobl egluro y gellir defnyddio'r gronfa i gefnogi plant a phobl ifanc yn ogystal â'u mamau sy'n teimlo effaith cam-drin domestig ac sydd angen cymorth yn gysylltiedig â llety, er mwyn sicrhau cefnogaeth gyson i blant a phobl ifanc sydd wedi'u cael eu cam-drin a lliniaru'r trawma sy'n gysylltiedig â phrofiadau niweidiol o'r fath.
- Dylid sicrhau bod gan dimau Cefnogi Pobl well dealltwriaeth o bwysigrwydd a natur benodol gwasanaethau arbenigol VAWDASV, o natur a chymhlethdod y ddarpariaeth a'r arbenigedd sydd gan weithwyr proffesiynol yn y gwasanaethau arbenigol VAWDASV, hynny yw bod gwasanaethau'n cyflenwi cymorth o fewn fframwaith y Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol a bod galluoedd proffesiynol yn cyd-fynd â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer cam-drin domestig a rhywiol.

### 1.6 Y graddau y mae trefniadau llywodraethiant a rheoli'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn adlewyrchu'r dull disgwyliedig o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:

Dywedodd aelod o brosiect SEEdS Cymorth i Ferched Cymru (Gwasanaethau Grymuso ac Addysg i Oroeswyr):

> *"Rwyf i'n teimlo bod mesur y Rhaglen Cefnogi Pobl yn erbyn egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn dasg bwysig iawn. Fodd bynnag, mae deddfwriaeth arall hefyd yn rhan o'r sail, efl Deddf Tai (Cymru) 2014 a Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014."*

Ar hyn o bryd, mae'n anodd gweld sut y caiff *Pum dull o weithio* (Hirdymor, Atal, Integreiddio, Cydweithio a Chynnwys) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 eu hadlewyrchu yn llywodraethiant a rheoli'r Rhaglen Cefnogi Pobl, o'i weld o bersbectif darparwr.

Nid yw'r ffordd y caiff gwasanaethau cymorth lloches eu cyllido drwy'r rhaglen mewn sawl ardal o Gymru (h.y. tymor byr, contractau gyda chleientiaid ag amser cyfyngedig, dim adnoddau ar gyfer anghenion cymorth plant) yn adlewyrchu anghenion goroeswyr am gymorth *hirdymor*, cyfannol i fodloni eu hanghenion. Canfu ein hadroddiad 'cyflwr y sector' diweddaraf hefyd fod 500 o oroeswyr cam-drin yn methu cael cymorth lloches y llynedd am nad oedd gan y gwasanaethau cymorth yr adnoddau a'r capasiti i fodloni eu hanghenion. Dylai rheolwyr y rhaglen adolygu ar frys pam y trowyd 500 o oroeswyr cam-drin i ffwrdd o ddarpariaeth graidd, pan allai buddsoddi mwy strategol a chydlynol sicrhau bod gan y gwasanaethau gapasiti i fodloni anghenion goroeswyr sy'n profi anfanteision niferus.

Nid yw'r Rhaglen chwaith yn buddsoddi mewn *atal* trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (fel achos craidd llawer o anghenion cymorth yn gysylltiedig â llety sydd gan fenywod), a chymryd y byddai hynny'n golygu cyllido gwasanaethau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran rhywedd a chroestoriadol eraill rhwng menywod a dynion. Mae rhywfaint o *gydweithio'n* digwydd rhwng gwasanaethau arbenigol drwy RCCau ac yn genedlaethol, ond mae angen gwell cydlynu strategol rhwng byrddau strategol VAWDASV ac RCCau, rhwng y SPNAB a Bwrdd Ymgynghorol Cenedlaethol VAWDASV a rhwng datblygu hyfforddiant, canlyniadau cenedlaethol a mesurau dangosol, a datblygu arweiniad comisiynu cenedlaethol. Rhaid i unrhyw waith ar hyrwyddo *ymglymiad* gan y rheini sy'n gyfrifol am lywodraethiant a rheolaeth y rhaglen hefyd sicrhau bod goroeswyr cam-drin domestig, trais rhywiol, trais ar sail anrhydedd, cam-fanteisio ac aflonyddu, yn ganolog mewn strategaethau ymglymu. Mae angen buddsoddiad ar gyfer hyn i sicrhau bod goroeswyr yn cael eu cefnogi a'u grymuso drwy'r broses hon.

O ran integreiddio, mae'r saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i gyd yn berthnasol i atal VAWDASV a chynorthwyo goroeswyr. Hefyd, mae ymrwymiad i gyflenwi'r Nodau Datblygu Cynaliadwy rhyngwladol yn sail i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), gydag un o'r rhain yn ymrwymo Cymru i: "*Cyflawni cydraddoldeb o ran rhywedd a grymuso pob menyw a merch*." Mae'r 9 targed sydd i'w cyflawni yn hyn o beth, yn cynnwys y canlynol, y byddem yn disgwyl i'r Rhaglen Cefnogi Pobl gefnogi eu cyflenwi:

- Diweddu pob math o wahaniaethu yn erbyn pob menyw a merch
- Dileu pob math o drais yn erbyn pob menyw a merch yn y parthau cyhoeddus a phreifat, gan gynnwys y fasnach mewn pobl a mathau eraill o wahaniaethu
- Dileu pob ymarfer niweidiol, megis priodas plant, cynnar a than orfod ac anffurfio organau cenhedlu benywod
- Mabwysiadu a chryfhau polisïau cadarn a deddfwriaeth y gellid ei gorfod i hyrwyddo cydraddoldeb o ran rhywedd a grymuso pob menyw a merch ar bob lefel

Ymhellach, mae'r 12 Nod Llesiant a gyhoeddwyd yn y Datganiad Llesiant Cenedlaethol diweddaraf sy'n cefnogi cyflenwi Strategaeth Llywodraeth Cymru *Ffyniant i Bawb* yn cynnwys ymrwymiadau i wneud y canlynol: (2) Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol a hyrwyddo gwaith teg; (5) Hyrwyddo iechyd da a llesiant i bawb; (6) Creu cymunedau mwy iach ac amgylcheddau gwell; (7) Helpu pobl ifanc i wneud y mwyaf o'u potensial a (10) Datblygu cymunedau, diwylliant ac iaith sy'n gydnerth. Mae Strategaeth *Ffyniant i Bawb* hefyd yn annog gweithredu trawstoriadol i wella blynyddoedd cynnar, tai, gofal cymdeithasol, iechyd meddwl a chyflogadwyedd.

Prif swyddogaeth gwasanaethau arbenigol VAWDASV yw bodloni anghenion cymorth goroeswyr a hefyd cyflawni gwaith ataliol mewn cymunedau lleol. Mae hyn yn cynnwys cymorth wedi'i dargedu gan fenywod a chymunedau BME ac ar eu cyfer, sy'n hanfodol i fodloni anghenion goroeswyr cam-drin a chyflawni gwaith ataliol mewn cymunedau BME. O ganlyniad, maent yn gweithio i gyflawni SDG5, gan ymdrin ag achosion craidd problemau sy'n gysylltiedig â'r materion mwyaf niweidiol yn ystod plentyndod, digartrefedd, un o'r prif resymau y tu ôl i ddarpariaeth gofal cymdeithasol, afiechyd meddwl, ac anghenion cymorth sgiliau a chyflogadwyedd menywod a phobl ifanc; sef cam-drin domestig, cam-drin plant yn rhywiol, treisio a thrais rhywiol, perygl o briodas dan orfod neu drais ar sail anrhydedd, aflonyddu rhywiol, caethwasiaeth fodern a phuteindra.

Mae VAWDASV yn achos ac yn ganlyniad i anghydraddoldeb rhwng menywod a dynion ac mae iddo effeithiau trawstoriadol ar iechyd a llesiant menywod a phlant. Felly nid oes modd cyflawni'r nodau llesiant yng Nghymru heb gymryd camau brys i atal a lliniaru effeithiau'r lefelau epidemig o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ym mhob cymuned yng Nghymru. Roedd Cymorth i Ferched Cymru yn cefnogi comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei hadolygiad o gynlluniau llesiant y Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus ac yn bryderus iawn nad oedd VAWDASV prin yn ymddangos mewn asesiadau lleol o'r boblogaeth. Byddem yn pryderu pe bai timau Cefnogi Pobl yn dibynnu ar yr asesiadau lleol hyn o'r boblogaeth nad ydynt yn adlewyrchiad digonol o asesiad o anghenion goroeswyr VAWDASV. Mae rhai aelodau wedi gwneud y pwynt bod y diffyg cyllid cynaliadwy yn y sector VAWDASV yn gweithio yn erbyn cyflawni amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

> *"Mae angen cynaladwyedd i sicrhau y caiff yr effaith ei gyflawni. Nid yw'r broses cynllunio cyllideb ar hyn o bryd yn caniatáu ar gyfer cynllunio tymor hir i alluogi asesiadau ac effeithiau a meithrin dealltwriaeth o werth cymdeithasol."*

Fel y cyfrannwr mwyaf i wasanaethau arbenigol VAWDASV[13], mae gan y Rhaglen Cefnogi Pobl ran sylweddol i'w chwarae i wireddu'r cynlluniau hyn.

**<u>Mae Cymorth i Ferched Cymru'n argymell bod rhaid i drefniadau llywodraethu a rheoli Cefnogi Pobl wneud y canlynol:</u>**

- Archwilio sut mae gweithrediad y rhaglen a'r modd mae'n cyflenwi'r 5 dull gofynnol o weithio yn mynd i'r afael â'r gofynion i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth VAWDASV yng Nghymru.
- Gweithredu i wella buddsoddiad mewn cymorth tymor hir i oroeswyr gan gynnwys rhai sy'n profi anfanteision niferus, mewn gwaith i atal VAWDASV, mewn dull gweithredu mwy cydweithredol gyda darparwyr VAWDASV, a buddsoddi mewn cymorth sy'n galluogi ymglymiad goroeswyr cam-drin yn nhrefniadau cyflwyno a chomisiynu'r rhaglen.
- Sicrhau bod y Rhaglen Cefnogi Pobl yn cyflawni Nod Datblygu Cynaliadwy 5, sy'n sylfaen i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Sicrhau bod y Rhaglen Cefnogi Pobl yn cydnabod bod rhaid iddi flaenoriaethu gwasanaethau arbenigol VAWDASV fel craidd i'w rhaglen gyflenwi er mwyn ymdrin â'r 5 blaenoriaeth croestoriadol. Yn ogystal â hyn rhaid gweithio'n strategol gyda chomisiynwyr eraill i sicrhau buddsoddiad strategol ar y cyd i gyflenwi cyllid cynaliadwy i wasanaethau arbenigol VAWDASV.

## Cwestiwn 2: Monitro a gwerthuso

### 2.1 Sut caiff data monitro/canlyniad ei ddefnyddio i lywio penderfyniadau am wariant y rhaglen a monitro contractau:

Mae rhai aelodau wedi dweud wrthym eu bod yn teimlo bod data monitro a chanlyniadau yn cael ei ystyried dim ond wrth ymgymryd ag adolygiadau o'r gwasanaeth a bod gwybodaeth yn cael ei hadrodd

[13] Cymorth i Ferched Cymru, 'Report to National Task and Finish Group to inform the development of a Model for Sustainable Funding for VAWDASV Specialist Services in Wales', 2017.

i RCC ar draws ardaloedd lleol. Mae eraill wedi mynegi pryderon bod dyblygu'r wybodaeth a geisir yn cymryd llawer o amser ac yn aml yn teimlo'n ddiangen, er enghraifft dywedodd un aelod:

> *"Rydym ni'n llenwi mwy o ffurflenni ac yn treulio mwy o amser yn gwneud hyn nag y mae'r comisiynydd yn ei dreulio'n deall yr effeithiolrwydd..."*

Dywed gwasanaethau hefyd fod angen bwydo'r un wybodaeth i nifer o systemau gwahanol, sy'n lleihau capasiti staff y gellid ei ddefnyddio'n well i helpu goroeswyr i gyrchu gwasanaethau:

> *"… pam na chaiff rhywfaint o hyn ei fwydo o un system fel nad oes rhaid i ni barhau i fwydo'r un wybodaeth."*

Mae goroeswyr hefyd wedi amlygu pryder ynghylch y data penodol a geisir o fewn y Rhaglen Cefnogi Pobl:

> *"Mae fy ymateb yn ymwneud mwy â 'pha' ddata sy'n cael ei gasglu yn y lle cyntaf a faint ohono sy'n tynnu ar brofiad byw a'r rheini sy'n gweithio ar lawr gwlad."*

Codwyd y cynnig i gasglu rhifau yswiriant gwladol (YG) fel dynodwyr newydd ac unigryw fel pryder diogelwch difrifol pan ymgynghorwyd ag aelodau a goroeswyr yn yr ymgynghoriad ar arweiniad a fframwaith Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru ym mis Awst 2017. Mae ein pryderon fel a ganlyn:

- Perygl y gallai cyflawnwyr neu deulu/ffrindiau sy'n gallu cyrchu'r gronfa ddata adnabod unigolion;
- Mae'n annhebygol y bydd gan y goroeswyr eu rhifau YG arnynt wrth ddod at y gwasanaethau, oni bai eu bod ar eu cof, gan eu bod yn gadael eu cartrefi'n gyflym;
- Mae rhai goroeswyr gan gynnwys menywod BME a phobl ifanc yn llai tebygol o fod â rhifau YG;
- Er y bydd pawb sy'n gallu cyrchu'r gronfa ddata wedi cael gwiriad DBS, mae digon o dystiolaeth nad yw'r rhan fwyaf o'r rheini sy'n cyflawni trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol byth yn cael eu dyfarnu'n euog a bod cyfran enfawr heb eu hadrodd i'r heddlu felly dim ond carfan fach iawn o gyflawnwyr y gall gwiriadau DBS eu canfod.

Mae'r rhan fwyaf o staff llinell flaen aelod-wasanaethau Cymorth i Ferched Cymru'n gwrthwynebu'n gryf y defnydd o rifau YG i oroeswyr sy'n cyrchu gwasanaethau a gyllidir gan Cefnogi Pobl. Er enghraifft:

> *"Rwyf i'n poeni y caiff yr wybodaeth hon ei defnyddio at ddibenion ar wahân i dracio gwasanaethau. Mae'n bosibl y bydd awdurdodau'n dymuno capio costau gwasanaethau yn y dyfodol ac anfanteisio ein cleientiaid (fel yr ydym ni eisoes wedi gweld gyda'r cynnig ar gyfer y cymal trais) drwy ei gysylltu â'r system fudd-daliadau. Mae ein cleientiaid eisoes yn profi anfantais a gwahaniaethu drwy'r system Cyfiawnder Troseddol, y system Fudd-daliadau i enwi ond dau, ac mae hyn yn ymddangos fel ychwanegiad diangen sy'n peri mwy o risg a chyfle i gam-fanteisio yn hytrach na bod yn fuddiol."*

**<u>Mae Cymorth i Ferched Cymru'n argymell fel a ganlyn:</u>**

- Er mwyn llywio asesiadau o anghenion ac ail-gomisiynu gwasanaethau, dylai data monitro a chanlyniadau gofnodi data gwasanaethau arbenigol VAWDASV yn effeithiol i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar sail tystiolaeth gan gydnabod effaith darpariaeth

arbenigol. Rhaid gwneud hyn mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar anghenion y goroeswr ac o fewn capasiti'r gwasanaethau arbenigol VAWDASV.

- Dylid cydweddu cronfa ddata genedlaethol Cefnogi Pobl gydag unrhyw systemau cyfochrog ar gyfer casglu canlyniadau a dangosyddion VAWDASV ar draws yr holl wasanaethau arbenigol yn y trydydd sector, a gyda fframweithiau comisiynu VAWDASV, gyda darparwyr niferus y tu hwnt i gomisiynu Cefnogi Pobl yn cyfrannu ati. I osgoi dyblygu, mae angen sgwrs i sicrhau bod y ddwy system yn ategu ac yn ychwanegu gwerth i'w gilydd.

**2.2 Y fframwaith canlyniadau diwygiedig arfaethedig a'r graddau y bydd yn mynd i'r afael â chyfyngiadau'r fframwaith presennol**:

Nododd aelodau Cymorth i Ferched Cymru bod y fframwaith canlyniadau diwygiedig yn uchelgeisiol iawn wrth geisio ffitio holl anghenion defnyddwyr gwasanaeth Cefnogi Pobl drwy bob un o'r 7 canlyniad sy'n 'fwyaf perthnasol' i'r 60,000 o unigolion sy'n derbyn cymorth. Byddem yn annog na ddylai'r dull fod yr un fath i bawb gan y gallai data gwerthfawr gael ei golli gan wasanaethau VAWDASV, gan nad yw'r saith canlyniad arfaethedig yn adlewyrchu anghenion/arbenigeddau'r sector VAWDASV, a gwasanaethau VAWDASV BME yn benodol. Gallai goroeswyr sy'n 'teimlo'n ddiogel' er enghraifft ymwneud mwy â CJS yn symud y cyflawnwr ac nid yw hynny o reidrwydd yn golygu bod eu hanghenion cymorth wedi'u bodloni. Gan fod y data hwn yn debygol o lywio asesiadau o angen ac ail-gomisiynu gwasanaethau mae'n hanfodol ei fod yn cael ei gipio i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar sail tystiolaeth gan gydnabod effaith ac ansawdd y ddarpariaeth arbenigol.

**Mae Cymorth i Ferched Cymru'n argymell fel a ganlyn:**

- Mae angen cysylltu canlyniadau Cefnogi Pobl â Strategaeth Genedlaethol VAWDASV 2016-21[14] a Chanlyniadau a Dangosyddion Cenedlaethol VAWDASV sy'n cael eu datblygu nawr.
- Mae angen mwy o arweiniad ynghylch 'pobl yn teimlo'n ddiogel' gan fod dryswch ynghylch pryd y dylid mesur hyn. Dylai'r hyn sy'n cael ei fesur hefyd fod yn dystiolaeth o newid cadarnhaol a grëwyd mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ar sail achosion unigol.
- Rhaid i waith monitro data ar gyfer gwasanaethau cymorth lloches a gwasanaethau VAWDASV eraill a gyllidir gan Cefnogi Pobl adlewyrchu anghenion goroeswyr sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny a natur y gwasanaethau sy'n cael eu darparu.

**2.3 Y ffordd orau i gyfleu ac ymwreiddio unrhyw drefniadau fframwaith canlyniadau diwygiedig:**

Fel y corff ymbarél cenedlaethol sy'n cefnogi'r sector arbenigol VAWDASV yng Nghymru, gall Cymorth i Ferched Cymru gefnogi lledaenu gwybodaeth i'r cyrff hyn. Mae aelodau wedi gofyn am ddiweddariadau rheolaidd ar ebost a gohebiaeth gyson ynghylch diwygiadau a newidiadau i'r fframwaith oddi wrth Lywodraeth Cymru, gan ei bod mor hanfodol fod y sector arbenigol VAWDASV

[14] Llywodraeth Cymru, 'Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol', *Llywodraeth Cymru,* 2016, [http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/161104-national-strategy-en.pdf](http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/161104-national-strategy-en.pdf), [cyrchwyd 18/07/17].

yn gwybod am unrhyw ddiwygiadau i drefniadau'r fframwaith canlyniadau. Gallai Cymorth i Ferched Cymru helpu i gydlynu'r cyfathrebu hwn drwy ein rôl.

**2.4 Cyfleoedd eraill i gryfhau monitro a gwerthuso, gan gynnwys asesu gwerth am arian perthynol unrhyw wasanaethau cymaradwy:**

Ceir galwad gan wasanaethau arbenigol VAWDASV am well cysondeb ar draws Cymru o ran y math o ddata a gaiff ei gasglu, beth yw'r costau uniongyrchol ac anuniongyrchol a'r effeithiau/canlyniadau sydd eu hangen wrth fonitro a gwerthuso'r Rhaglen Cefnogi Pobl. Yn ogystal, dywedodd un goroeswr:

> *"Byddai hyn i fi'n cysylltu â'r prosesau tendro ac ail-dendro. Os oes rhaid i gyrff ddangos dadansoddiadau cyllidebol a'u rhesymau, bydd hyn yn amlygu'r cydbwysedd rhwng gwerth am arian ac ansawdd darpariaeth sy'n ddigon uchel i fod yn effeithiol. Mae methiannau oherwydd gwasanaeth gwael a diffyg cyllid yn stori rhy gyfarwydd o lawer."*

## Cwestiwn 3: Dosbarthu cyllideb y Rhaglen a chynllunio ariannol

**3.1 Y materion sydd angen eu hystyried wrth ddatblygu a gweithredu fformiwla cyllido newydd:**

Hoffai Cymorth i Ferched Cymru weld fformiwla cyllido newydd sy'n cynnwys gwarchodaeth i wasanaethau VAWDASV ac sy'n amddiffyn y rhwydwaith cenedlaethol o lochesi sydd mor hanfodol i ddiogelu goroeswyr trais a cham-drin. Er bod rhai aelodau wedi galw am ragor o wybodaeth, mae eraill wedi cynnig model sy'n sicrhau bod "gwasanaethau arbenigol VAWDASV yn rhan hanfodol o unrhyw ystyriaethau cyllido."

Dywedodd gwasanaeth arbenigol VAWDASV arall:

> *"Nid yw'r diffyg ansicrwydd o ran cyllido yn y dyfodol yn caniatáu ar gyfer cysondeb cyflenwi gwasanaethau, bydd ac mae darparwyr arbenigol yn diflannu, bydd bylchau sgiliau a gwybodaeth yn datblygu a bydd yr effaith ar y pwrs cyhoeddus yn cynyddu fwyfwy wrth i bwysau syrthio ar wasanaethau cyhoeddus eraill."*

Roedd adborth goroeswyr yn cefnogi hyn, gan ddweud:

> "Mae angen i ddarparwyr allu blaengynllunio, felly ailsefydlu dyraniadau tair blynedd yw'r man cychwyn ar gyfer hyn."

Mae corff arbenigol llai o faint hefyd wedi dweud y byddai'n fuddiol pe bai rhywfaint o gyllid ar gael i gyrff VAWDASV llai sy'n cynorthwyo pobl ag anfanteision niferus, naill ai'n uniongyrchol neu drwy weithio mewn partneriaeth gydag eraill.

**3.2 Sut mae pwysau cyllidebol ac ansicrwydd cyllido wedi effeithio ar gynllunio a chyflenwi gwasanaeth:**

Mae Cymorth i Ferched Cymru wedi cynnal ymchwil gyda'n haelodau i'r pwysau cyllidebol a'r ansicrwydd cyllido i wasanaethau arbenigol VAWDASV. Nododd ein hadroddiad Cyflwr y Sector[15] a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr, effaith colledion flwyddyn ar ôl blwyddyn naill ai o ganlyniad i doriadau uniongyrchol i grantiau neu flynyddoedd o gyllido disymud. Nodwyd er bod cyllid cyffredinol Cefnogi Pobl wedi'i gynnal yn 2017/18, bod gostyngiad o 4% yng nghyfanswm cyllid gwasanaethau VAWDASV o'r Grant Cefnogi Pobl.[16] Mae hyn yn cael effaith uniongyrchol ar ddarparu gwasanaethau i oroeswyr VAWDASV; methodd 500 o oroeswyr (456 - 90% yn fenywod) â chael cymorth mewn lloches oherwydd diffyg adnoddau neu gapasiti.[17]

Mae aelodau Cymorth i Ferched Cymru wedi amlygu nad yw cynllunio tymor byr yn addas ac y gallai effeithio ar ansawdd y ddarpariaeth i oroeswyr VAWDASV. Lleisiodd un gwasanaeth bryderon a rennir gan lawer:

> *"Does gennym ni ddim syniad a fyddwn ni'n derbyn cyllid Cefnogi Pobl y flwyddyn nesaf. Dyw ein gweithwyr ni ddim wedi cael codiad cyflog mewn tair blynedd felly maen nhw'n dal i dderbyn cyfradd tâl sylfaenol. Ni allwn godi rhenti i ymdrin â'r codiadau mewn trydan, costau cyfleusterau'r cyngor, eto i gyd gofynnir i ni wneud mwy dan y contract. Nid yw Cefnogi Pobl yn talu dim o'n costau monitro."*

Dywedodd goroeswr, a gafodd lety dros dro wrth adael perthynas dreisiol:

> *"Mae'n golygu bod cyrff VAWDASV (ac yn enwedig aelodau ymroddedig o staff) yn teimlo bod eu dwylo wedi'u clymu wrth roi camau gweithredu ar waith oherwydd dydyn nhw ddim yn gwybod a fyddan nhw'n gallu eu cwblhau."*

Dywedodd gwasanaeth arbenigol VAWDASV arall:

> *"Mae pwysau cyllidebol ac ansicrwydd cyllido'n effeithio ar gyflenwi gwasanaeth, a gaiff ei liniaru gan broffesiynoldeb ac aeddfedrwydd y sector sy'n cydweithio i gynnal gwerth am arian, cynllunio strategol, comisiynu a phwrcasu i geisio sefydlogi darpariaeth gwasanaeth sy'n dda. Ond mae ansicrwydd a chynlluniau am doriadau, cyllidebau blynyddol, yn arwain at gomisiynu ymatebol sy'n effeithio ar gyflenwi gweithrediadol."*

Y dystiolaeth gan wasanaethau arbenigol VAWDASV yng Nghymru yw bod ansicrwydd mawr yn yr hinsawdd cyllido wrth edrych ymlaen, gyda'r newidiadau arfaethedig i Cefnogi Pobl a grantiau VAWDASV eraill gan Lywodraeth Cymru, a chystadleuaeth barhaus am gyllid sy'n gynyddol gyfyngedig. Mae hyn i gyd yn digwydd mewn cyd-destun o angen cynyddol am gymorth arbenigol i oroeswyr VAWDASV. Mae cynnydd cyfatebol o ran yr anghenion cymhleth ac anfanteision niferus a gyflwynir yn golygu bod rhai gwasanaethau arbenigol yn ei chael yn anodd dan straen diffyg capasiti. O ran gwasanaethau arbenigol BME, plant a phobl ifanc ac anabledd, mae hyn yn lefel ychwanegol o bwysau ar eu gwasanaethau i sicrhau bod angen yn cael ei dystio'n gywir a'i dderbyn ar gyfer y grwpiau hyn. Mae goroeswyr yn cyrchu gwasanaethau arbenigol gyda lefelau cynyddol uwch o anghenion cymorth

---

[15] http://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2017/12/WWA-State-of-the-Sector-2017-ENG.pdf
[16] Cymorth i Ferched Cymru, 'Report to National Task and Finish Group to inform the development of a Model for Sustainable Funding for VAWDASV Specialist Services in Wales', 2017.
[17] Cymorth i Ferched Cymru, 'Summary of 2016/17 Data from Specialist Services in Wales', 2017.

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE
Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |
Email: info@welshwomensaid.org.uk | Web: www.welshwomensaid.org.uk
Registered Charity Number: 1140962



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

o ganlyniad i'w profiadau o gam-drin, sy'n croestorri gyda byw gydag anfanteision difrifol a niferus. Nid oes gan lawer o wasanaethau yn aml adnoddau na chapasiti digonol i gyflenwi'r lefel o gymorth dwys sydd ei agen yn yr achosion hyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu ymrwymiad cenedlaethol i gyflenwi cyllid cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau arbenigol VAWDASV yn Strategaeth VAWDASV Genedlaethol 2016-21, ble mae gan y Grant Rhaglen Cefnogi Pobl ran hanfodol i'w chwarae. Mae Cymorth i Ferched Cymru wedi mapio'r adnoddau sy'n cyllido gwasanaethau arbenigol VAWDASV yng Nghymru ar ran Llywodraeth Cymru, i lywio'r gwaith hwn. Nawr mae angen cyflawni'r ymrwymiad hwn, ar draws y llywodraeth - mewn ffordd sy'n cynnwys y Rhaglen Cefnogi Pobl - i sicrhau y caiff ei wireddu.

**3.3 Rhesymau am yr amrywiad eang a nodwyd o ran cymorth ariannol i wahanol grwpiau o gleientiaid ar draws awdurdodau lleol:**

Mae ein haelodau wedi dweud bod amrywiol resymau am hyn, "o anghenion niferus/cymhleth yn erbyn anghenion lefel isel, gwasanaethau peripatetig yn erbyn costau llety, cyfraddau ymgysylltu ar draws grwpiau cleientiaid, cleientiaid in situ yn erbyn ffrydiau buddsoddi anychwanegol."

Dywedodd goroeswr cam-drin domestig:

> *"Mae hyn yn ymwneud ag ansawdd y ddarpariaeth. Os nad yw'n ddigonol h.y. os nad yw'r staff yn ddigon cymwys a phrofiadol a bod eu cyflog yn adlewyrchu hyn, os yw amser cymorth un i un yn gyfyngedig, ac yn y blaen, bydd y rheini sy'n symud drwy'r system at annibyniaeth yn methu ac yn diweddu'n ôl yn y system llety â chymorth unwaith eto. Felly byddwn i am edrych ar y gwahaniaeth o ran maint y cymorth ariannol yn erbyn y lefel o gymorth a ddarperir. Mae toriadau ac arbedion yn aml yn arwain at fwy o wariant yn y tymor hirach."*

Mae angen gwahanol ymyriadau a lefel o gymorth ar wahanol grwpiau o gleientiaid a gyllidir o fewn y Grant Cefnogi Pobl. Mae angen darpariaeth arbenigol ar gymorth VAWDASV sy'n darparu dull yn seiliedig ar gryfderau, dan arweiniad anghenion ac wedi'i lywio gan drawma ar gyfer cefnogi goroeswyr a'u plant i adeiladu gwydnwch a meithrin annibyniaeth a rhyddid rhag cael eu cam-drin. Fel y nodwyd ynghynt ac yr atgyfnerthwyd gan yr adborth uchod gan oroeswyr, bydd y buddsoddiad hwn yn y tymor byr mewn atal cynnar a chymorth effeithiol yn arwain at well arbedion a gwerth am arian yn y tymor hir. Nod y gwasanaethau arbenigol VAWDASV yn y pen draw yw lleihau'r nifer o oroeswyr a phlant sy'n byw gyda cham-drin a'r costau tymor hir a gysylltir â cham-drin goroeswyr, gwasanaethau a chymdeithas.

Rhaid i fuddsoddiad mewn darpariaeth gyd-fynd yn briodol ag anghenion y grŵp cleientiaid a chyflawni canlyniadau cadarnhaol yn y tymor hir.

**3.4 Rhesymau am y newid amlwg yn y gyfran gyffredinol o gyllid rhaglen a gaiff ei gwario ar gymorth symudol a sefydlog:**

Dywedodd un aelod bod newidiadau contractaidd yn cael effaith ar fapio cyflenwad, gan nodi er enghraifft y newid o wasanaethau cysgodol i rai ar sail deiliadaeth i gymorth symudol peripatetig, yn

ogystal mae contractau Cefnogi Pobl yn seiliedig ar oriau neu gymorth symudol hyblyg gan gyfeirio'n unig at safleoedd sefydlog.

Mae'r duedd hon yn aml yn seiliedig ar y cam-ganfyddiad bod cymorth symudol yn fwy cost effeithiol ac yn ddull ataliol o ran anghenion tai, fodd bynnag nid yw hyn yn seiliedig ar anghenion goroeswyr VAWDASV. Mae goroeswyr sy'n dymuno mynd i loches yn gwneud hynny am mai dyma'r lle mwyaf diogel iddyn nhw a'u plant a'i fod yn cynnig pecyn o gymorth ar sail anghenion gan gynnwys eiriolaeth, cyngor, gwaith grŵp a chymorth i blant sy'n eu galluogi i gyflawni canlyniadau tymor hir, ac sy'n gost effeithiol yn y tymor hir. Ymhellach, gall cymorth ataliol gwmpasu darpariaeth lloches 'sefydlog' gan ei fod yn atal cam-drin pellach, a gall y cymorth a ddarperir atal nifer o ganlyniadau negyddol.

**3.5 Y graddau y mae prosesau cynllunio a gwariant lleol a rhanbarthol yn adlewyrchu anghenion ag iddynt dystiolaeth dda, yn hytrach na phatrymau hanesyddol:**

Nododd adborth gan rai aelodau Cymorth i Ferched Cymru nad oedd cynllunio a gwariant lleol a rhanbarthol yn adlewyrchu anghenion ag iddynt dystiolaeth dda. Caiff hyn ei adrodd unwaith eto fel loteri cod post, gyda rhai ardaloedd yn codi pryderon am *sut* y caiff asesiadau risg eu cynnal i lywio comisiynu. Mae hyn yn bryder penodol i wasanaethau arbenigol nad ydynt yn draddodiadol wedi'u cyllido'n lleol, er enghraifft gwasanaethau arbenigol BME. Mae angen cysondeb o ran agwedd at asesu anghenion sy'n ystyried y darlun cenedlaethol yn ogystal â'r angen yn lleol. Ceir pryderon nad yw rhai prosesau comisiynu Cefnogi Pobl yn ceisio canfod anghenion sydd ynghudd neu sydd heb gefnogaeth er mwyn ehangu cwmpas Cefnogi Pobl ond eu bod yn hytrach yn canolbwyntio ar bobl neu ddarparwyr 'sydd wedi defnyddio gwasanaethau/cyllid Cefnogi Pobl' yn flaenorol. Awgrymir y dylai Cefnogi Pobl fod yn uchelgeisiol yn ei nod o gyrraedd ymhellach nag y mae wedi gwneud o'r blaen, er mwyn cysylltu â darpar gleientiaid nad yw eu hanghenion yn cael eu diwallu ar hyn o bryd.

Bydd arweiniad comisiynu'n hanfodol i sicrhau bod y prosesau cynllunio'n effeithiol ac yn seiliedig ar angen â thystiolaeth dda. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn drafftio canllawiau comisiynu ar gyfer darpariaeth VAWDASV, dylai hyn lywio'r prosesau cynllunio mewn ardaloedd lleol a rhanbarthol a'u dal yn atebol ar gyfer asesu anghenion yn effeithiol a chomisiynu darpariaeth â thystiolaeth dda. I wneud hyn bydd angen i Dimau Cefnogi Pobl ymgynghori â'r sector arbenigol VAWDASV a goroeswyr. Mae awdurdodau lleol hefyd yn datblygu strategaethau a chynlluniau comisiynu VAWDASV a bydd integreiddio prosesau cynllunio a gwariant Rhaglen Cefnogi Pobl o fewn y rhain yn hanfodol.

Mae Cymorth i Ferched Cymru a gwasanaethau arbenigol VAWDASV ar draws Cymru wedi cyfrannu at gynhyrchu'r pecyn comisiynu VAWDASV, gyda chymorth Llywodraeth Cymru ac fe'i hysgrifennwyd a'i gyhoeddi gan Sefydliad Banc Lloyds.

**Rydym ni'n argymell y canlynol:**

- Hyrwyddo pecyn cymorth comisiynu VAWDASV i arweinwyr Cefnogi Pobl a chydlynwyr datblygu lleol i lywio comisiynu o ansawdd uchel (gan gynnwys asesu anghenion) a chaffael gwasanaethau arbenigol VAWDASV. Mae'r canllawiau i'w gweld yma: http://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2016/03/VAWDASV-Toolkit_Cymru_web.pdf

Unwaith eto hoffai Cymorth i Ferched Cymru ddiolch i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am y cyfle i wneud sylwadau ar y Rhaglen bwysig hon. Mae Cymorth i Ferched Cymru hefyd ar gael i ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig a llafar bellach ar y mater hwn os bydd angen.

Gellir cyfeirio unrhyw sylwadau neu gwestiynau am ein hymateb i:
Hilary Watson – Swyddog Polisi ac Ymchwil
02920 541 551
HilaryWatson@welshwomensaid.org.uk